Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd



mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

# Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a gynhelir gan awdurdod lleol




Mae pob plentyn sy'n mynd i ysgol gynradd a gynhelir gan awdurdod lleol yn gallu cael brecwast am ddim yn yr ysgol os yw'r ysgol yn darparu brecwast am ddim. Os nad yw'r ysgol yn darparu brecwast am ddim, gallwch ofyn iddi os yw hi'n gallu dechrau ei ddarparu. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu brecwast am ddim i ysgolion os yw'r ysgolion yn gofyn amdano, oni bai ei bod yn afresymol iddynt wneud hynny.

Hydref 2014 oedd dengmlwyddiant y cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Gallai cael brecwast iach helpu i wella iechyd plant a'u gallu i ganolbwyntio. Gallai hyn eu helpu i ddysgu'n well.

Dan adrannau 88–90 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013, rhaid i'r brecwast a ddarperir mewn ysgolion cynradd fod yn un iach.

## Pa fwyd sydd ar gael?

**Grawnfwyd heb siwgr ychwanegol fel:**
Grawnfwyd gwenith cyflawn
Creision ŷd
Creision reis
Grawnfwyd siwrwd gwenith grawn cyflawn
Sgwariau gwenith brag
Bran flakes
Uwd




**Llaeth**
Iogwrt
Llaeth sgim neu hanner sgim (rhoddir llaeth cyflawn mewn meithrinfeydd)

**Bara**
Amrywiaeth o fara gyda margarîn, jam, marmalêd neu fêl, er enghraifft, wedi eu taenu'n denau

**Ffrwythau**
Ffrwythau ffres wedi eu torri neu ffrwythau sych i'w hychwanegu at rawnfwyd
Ffrwythau tun mewn sudd naturiol
Sudd ffrwythau a llysiau heb ei felysu



# Cwestiynau cyffredin

**Ydy fy mhlentyn i yn gymwys i gael brecwast am ddim yn yr ysgol gynradd?**
Mae eich plentyn yn gymwys i gael brecwast am ddim yn ei ysgol gynradd os yw honno'n cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol ac os yw'n darparu brecwast am ddim. Mae angen ichi ofyn i'r ysgol am frecwast am ddim er mwyn i'ch plentyn ei gael.

**Beth os nad yw ysgol fy mhlentyn yn darparu brecwast am ddim?**
Gallwch ofyn i bennaeth yr ysgol a'r corff llywodraethu ddechrau darparu brecwast am ddim os yw'r ysgol yn cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol. Os yw'r ysgol yn teimlo bod digon o rieni/gofalwyr eisiau brecwast am ddim i'w plant, gall ofyn i'r awdurdod lleol ei ddarparu. Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu brecwast am ddim i'r ysgol oni bai ei fod yn ystyried bod hynny'n afresymol.

**Pam y gallai awdurdod lleol ystyried ei bod yn afresymol i ysgol ddarparu brecwast am ddim?**
Gallai awdurdodau lleol ystyried ei bod yn afresymol i ysgol ddarparu brecwast am ddim:

- os nad oes llawer o blant eisiau brecwast am ddim
- os nad oes gan yr ysgol le neu gyfarpar addas i weini brecwast am ddim i blant
- os nid yw'r ysgol yn gallu cael staff i oruchwylio brecwast am ddim.

**Faint o'r gloch y gall fy mhlentyn gael brecwast am ddim?**
Rhaid i'r ysgol ganiatáu digon o amser i blant ddewis eu brecwast, ei fwyta heb ruthro a dechrau ar weithgareddau arferol yr ysgol. Fel arfer, dylai'r brecwast gael ei ddarparu tua 30 munud cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Ond mater i'r ysgol a'r awdurdod lleol yw cytuno ar amser addas i'w roi ar gyfer brecwast.

**Ydy ysgol fy mhlentyn yn cael codi tâl ar rieni/gofalwyr am y clwb brecwast?**
Os yw'r ysgol yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu brecwast am ddim, rhaid iddi beidio â chodi tâl am frecwast. Mae'r cyllid ar gyfer y cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn gofalu am y bwyd, y goruchwylwyr ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â sefydlu brecwast am ddim yn yr ysgol. Rhaid i ysgolion beidio â chodi tâl am unrhyw ran o'r brecwast am ddim. Os oes gan yr ysgol glwb brecwast preifat, a allai gynnwys gofal plant, efallai y codir tâl arnoch am hyn. Cofiwch eich bod yn gallu gofyn i'r ysgol i ddarparu brecwast am ddim.

**Pwy fydd yn gofalu am fy mhlentyn pan fydd yn cael brecwast am ddim?**
Rhaid i ysgolion gynnal asesiadau iechyd a diogelwch i wneud yn siŵr bod plant yn ddiogel pan fyddant yn cael brecwast am ddim. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu goruchwylio yn ystod yr amser brecwast.

**Ydy ysgolion sy'n darparu brecwast am ddim hefyd yn darparu gofal plant?**
Nid yw'r cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn darparu gofal plant. Mae plant yn cael eu goruchwylio yn ystod yr amser brecwast. Pwrpas hyn yw gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel wrth ddewis eu brecwast a'i fwyta cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Gall ysgolion godi tâl am ofal plant cyn i'r sesiwn brecwast am ddim ddechrau. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'gofal plant cofleidiol'. Mae'r gofal plant hwn yn rhywbeth sydd ar wahân i'r cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Rhaid i ysgolion beidio â chodi tâl arnoch am gost y staff sy'n goruchwylio brecwast am ddim.

**Beth os yw fy mhlentyn eisiau mynd i 'glwb brecwast am ddim' ond nad yw eisiau bwyta brecwast?**
Nod y cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yw darparu brecwast iach i blant cyn cychwyn y diwrnod ysgol. Felly gall ysgolion annog plant i fwyta brecwast.

**Beth os oes anghenion deietegol arbennig ar fy mhlentyn?**
Mae'n bwysig ichi ddweud wrth yr ysgol cyn i'ch plentyn gael brecwast am ddim os oes ganddo ef neu hi anghenion deietegol arbennig, gan gynnwys alergeddau ac anoddefiadau. Yna, bydd yr ysgol yn gwneud yn siŵr bod yr holl bobl sy'n goruchwylio'r brecwast am ddim yn ymwybodol o hyn.

# Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Y Gangen Lles Disgyblion**
**Llywodraeth Cymru**
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

wellbeingshare@wales.gsi.gov.uk

Mae'r daflen hon ar gael yn electronig ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/breakfast/?lang=cy



ISBN: 978-1-4734-3181-2
© Hawlfraint y goron Ebrill 2015
WG24562